07/01/16

Brîff UCAC Briefing

# Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2016-17

## Cyflwyniad

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn un o brif undebau addysg Cymru. Mae'n cynrychioli 5,000 o athrawon, penaethiaid a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan y Pwyllgor Cyllid ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2016-17.

### 1. Beth, yn eich barn chi, fu effaith cyllideb 2015-16 Llywodraeth Cymru?

Er bod y gyllideb ysgolion wedi'i ddiogelu, ac yn 1% yn uwch na'r newidiadau i Gyllideb Cymru'n gyffredinol, bu 2015-16 yn flwyddyn heriol iawn i bob rhan o'r sector addysg.

Yn y sector ysgolion, gwelsom ddiswyddiadau ar lefel ddigynsail, ac mae'n ymddangos mai parhau gwnaiff y tuedd niweidiol hwn. Pwysig yw nodi bod y diswyddiadau hyn yn digwydd hyd yn oed mewn ysgolion ble mae niferoedd y dysgwyr ar gynnydd.

Mae'r sector ôl-16 yn gwegian, ac mae aelodau ar hyd a lled Cymru'n adrodd bod y datblygiadau cadarnhaol iawn yn sgil Llwybrau Dysgu 14-19, o ran y gallu i wneud cynnig galwedigaethol eang sy'n cadw carfan o bobl ifanc yn y system addysg, wedi dechrau dirywio.

Gwelodd y sector Addysg Bellach doriadau difrifol – a hynny o fewn y flwyddyn: toriadau a fydd yn niweidiol iawn i addysg i oedolion, addysg rhan amser a'r ymgais i ddod â phobl nôl i fyd addysg a sgiliau a'u paratoi ar gyfer y gweithle.

Mae'r prifysgolion yn dal i fod yn ceisio ymdopi â'r newidiadau pellgyrhaeddol i drefniadau ariannu Addysg Uwch, ac yn benodol, sgil-effeithiau sianelu cyfran helaeth o'r arian drwy ddwylo myfyrwyr yn hytrach na thrwy ddwylo'r corff cyllido. Mae'r polisi o ariannu pob myfyriwr o Gymru ble bynnag y bo'n astudio wedi bod yn her ychwanegol o ran y llif arian o Gymru i brifysgolion Loegr yn bennaf.

Mae cyllideb y Gymraeg wedi gweld toriadau cyson dros y blynyddoedd diwethaf, dim ond i weld arian 'newydd' yn cael ei gyhoeddi at ddibenion penodol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn, heb os, wedi bod yn niweidiol i'r ymdrechion i hybu ac i hyrwyddo'r iaith ar draws nifer o sectorau, gyda Chymraeg i Oedolion yn arbennig yn gweld toriadau llym a disymwth.

### 2. Gan edrych ar ddyraniadau cyllideb ddrafft 2016-17, a oes gennych unrhyw bryderon o safbwynt strategol a chyffredinol, neu ynglŷn ag unrhyw feysydd penodol?

- Diogelu cyllideb ysgolion 1% yn uwch na DEL Cymru yn 2016-17

Croesawn yr ymrwymiad i ddiogelu'r gyllideb ysgolion ar lefel sydd 1% uwchlaw'r newidiadau i'r setliad cyffredinol, a chytunwn mai'r dull orau o'i ddyrannu yw trwy Grant Cynnal Refeniw'r Awdurdodau Lleol.

Fodd bynnag, rhaid tynnu sylw at y ffaith bod yr un setliad mewn blynyddoedd blaenorol wedi arwain at sefyllfa ariannol heriol i ysgolion, gan gynnwys diswyddiadau cynyddol blwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae UCAC o'r farn bod y sector wedi cyrraedd y pwynt ble fydd anawsterau gwirioneddol i ddarparu'r cwricwlwm yn effeithiol os bydd diswyddiadau'n parhau ar y lefel presennol, neu'n cynyddu fel y disgwylir.

Rhaid cofio'i fod yn debygol y bydd angen i ysgolion dalu codiad cyflog o o leiaf 1% i athrawon o fis Medi 2016 (dyna sydd wedi'i nodi yng nghylch gwaith y *School Teachers' Review Body* gan yr Ysgrifennydd Gwladol) a chymryd hynny i ystyriaeth wrth gyllidebu.

Mae dogfen naratif 'Cymru Decach, Cymru Well - Buddsoddi at y Dyfodol' yn cydnabod mai cynyddu y mae niferoedd pobl ifanc, a hynny tan o leiaf 2023. Nid yw hynny'n gydnaws â'r toriadau i swyddi sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd, ac sy'n debygol o barhau dan y setliad presennol. Y prif ganlyniad fydd cynnydd anghynaladwy o ran llwyth gwaith, gyda sgil effeithiau anorfod ar iechyd, iechyd meddyliol ac absenoldebau a all fod yn fwy costus i ysgolion yn y tymor hir.

- Her Ysgolion Cymru

Cefnoga UCAC yr egwyddor tu ôl i Her Ysgolion Cymru, sef rhoi cefnogaeth ychwanegol o safon uchel i'r ysgolion hynny sydd fwyaf ei hangen. Nid ydym yn gwrthwynebu ymestyn y cynllun am flwyddyn, ond pwysleisiwn yr angen i fonitro canlyniadau a sicrhau y gwerth gorau am arian o ran codi safonau – gyda pharodrwydd i newid y dulliau gweithredu os oes angen er mwyn cynyddu effeithiolrwydd. Mae'n fuddsoddiad sylweddol iawn, ac mae angen sicrhau ei fod yn llwyddo. Nid oes consensws ar hyn o bryd ynghylch llwyddiant y cynllun.

- Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD)

Fel uchod, mae UCAC yn gefnogol iawn i egwyddor y GAD o ran ceisio torri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol isel. Croesawn barhad y grant, a'r cynnydd, ar yr amod bod cydbwysedd rhwng amodau gwariant cenedlaethol (ar sail tystiolaeth ac arfer dda) sy'n debygol o arwain at ddefnydd effeithiol o'r arian ar y naill law, a hyblygrwydd ar y llaw arall i'w wario mewn ffyrdd sy'n debygol o fod yn effeithiol yng nghyd-destun amgylchiadau penodol ysgolion unigol.

- Buddsoddiad cyfalaf i ysgolion a cholegau
- Diogelu Dechrau'n Deg ar yr un lefelau â 2015-16
- Diogelu cyllid brecwast a llaeth am ddim mewn ysgolion ar 1% uwchlaw'r newidiadau i grant bloc cyffredinol Cymru

Mae'r rhain i'w croesawu.

- Diogelu darpariaeth ôl-16; £5m i barhau'r cymorth i 2,500 o brentisiaethau; £5m i greu 2,500 o brentisiaethau newydd

Croesawn unrhyw gamau i ddiogelu addysg ôl-16 sydd wedi wynebu heriau difrifol mewn blynyddoedd diweddar. Mae Dysgu Seiliedig ar Waith a phrentisiaethau'n hanfodol ar gyfer lleihau ac osgoi NEETs - sy'n 10.9% o bobl ifanc 16-18 oed yn ôl ystadegau diweddar Llywodraeth Cymru. Er bod blaenoriaeth i ddysgwyr ifanc, byddai'n fanteisiol sicrhau bod rhywfaint o'r prentisiaethau ar gael i ddysgwyr hŷn sydd wedi colli cyfleoedd yn y gorffennol.

Tynnwn sylw at yr angen i sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynnwys dan y penawdau gwariant hyn – mae nifer y lleoliadau Dysgu Seiliedig ar Waith a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn bitw, tra bod anghenion dwys o fewn yr economi am siaradwyr Cymraeg hyderus mewn ystod eang o swyddi yn y gwasanaethau cyhoeddus, busnes, amaeth, twristiaeth, arlwyo a hamdden, adeiladwaith ac ati. Yn ôl ffigyrau Cymdeithas yr Iaith 3.7% o brentisiaethau rhwng 2009/10 a 2011/12 oedd yn rhai cyfrwng Cymraeg (llai na 0.4%) neu ddwyieithog (llai na 3.4%).

- Tocynnau teithio rhatach i bobl ifanc

Cred UCAC y dylai teithio i addysg a hyfforddiant 16-19 oed fod am ddim, ar batrwm tebyg i gludiant i'r ysgol ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd o ran terfynnau pellter. Mae problemau cludiant yn rhwystr i addysg. Yn sgil toriadau difrifol i gyllidebau Awdurdodau Lleol, mae gwasanaethau anstatudol, megis cludiant am ddim, neu gludiant gostyngol i bobl ifanc 16-19 oed, yn cael eu targedu. Gall hyn olygu fod teithio i gael addysg neu hyfforddiant ôl-16 yn rhy ddrud i lawer o bobl ifanc a'u teuluoedd, yn enwedig y rheiny sy'n byw mewn tlodi, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn dod yn NEET, gyda'r holl broblemau sy'n dod yn sgil hynny o ran cyflogadwyedd a sgiliau bywyd.

Yn sgil y broses o uno colegau Addysg Bellach, mae pellteroedd teithio wedi cynyddu ar gyfer pobl ifanc. Mae'n broblem yn ogystal ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, sydd â theithiau llawer hirach a mwy cymhleth na'u cyfoedion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae'r un problemau'n wynebu dysgwyr yng nghefn gwlad Cymru ac yn yr ardaloedd ôl-ddiwydiannol.

Nid oes digon o fanylder yn y gyllideb ddrafft i ni ddeall a yw'r cynigion yn dderbyniol o ran pa effaith fyddant yn eu cael ar bobl ifanc e.e. Beth yw maint yr ostyngiad? A yw'r gostyngiad yn gyson ledled Cymru? A yw'r tocynnau'n gymwys ar fysiau a threnau, a hynny ar unrhyw adeg o'r dydd? Pwyswn am ragor o wybodaeth a manylder er mwyn gallu barnu a yw'r cyllid yn ddigonol at y pwrpas.

- Astudiaeth dichonoldeb a chynllun peilot Gofal Plant yn Addysg Bellach

Mae hwn i'w gymeradwyo'n fawr.

- £10m cymorth i fyfyrwyr Addysg Uwch

Mae gan UCAC bryderon sylweddol ynghylch y dulliau a lefelau ariannu presennol ar gyfer AU (sef trwy ffioedd a grantiau ffioedd myfyrwyr yn hytrach na chyrff cyllido) - er y gwyddom fod hynny, i raddau helaeth y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru yn sgil natur draws-ffiniol y ddarpariaeth a'r strwythurau AU.

Mae nifer o ffactorau - gan gynnwys y gyllideb ddrafft - yn peri bod ein pryderon yn cynyddu ar gyfer y blynyddoedd i ddod, a hynny ar sawl sail.

Y cyntaf yw anghynaladwyedd. Mae posibilrwydd cryf iawn y bydd ffioedd yn Lloegr yn codi, a hynny'n golygu costau ychwanegol sylweddol iawn i Lywodraeth Cymru os yw'n cadw at ei bolisi grantiau ffioedd myfyrwyr presennol. Byddem yn gweld cynnydd yn y llif o adnoddau, sydd eisoes yn frawychus o uchel, o £155.8m (ffigyrau 2013-14 yn ôl adroddiad London Economics ar ran UCU) yn gadael Cymru i brifysgolion tu hwnt i'r ffin, ac i Loegr yn bennaf. Mae'n bosib yn ogystal y bydd gan brifysgolion yn Lloegr yr hawl i godi'r cap ar

niferoedd myfyrwyr, a allai olygu bod llai o fyfyrwyr yn dod i brifysgolion Cymru - gan beryglu'r llif arian pwysig i sector AU Cymru (£181.9m yn 2013-14, yn ôl yr un adroddiad).

Yr ail sail dros bryderu yw'r diffyg gallu i gynllunio, a'r diffyg erfyn polisi sy'n dod yn sgil dibyniaeth mor drom ar ffioedd myfyrwyr am incwm. Yn ôl adroddiad UCU, yn 2013-14 roedd 81% o ariannu cyhoeddus i'r sector Addysg Uwch yng Nghymru yn mynd drwy law'r myfyriwr. Bydd y toriad enfawr o £41m (32%) a fwriedir ei wneud i gyllideb Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), a'r bwriad cysylltiedig i lenwi rhywfaint o'r blwch hwnnw (tua £20m) gyda grantiau ffioedd myfyrwyr yn gwaethygu'r sefyllfa'n ddifrifol. Ni allwn weld sut bydd modd i Lywodraeth Cymru fynnu bod prifysgolion yn blaenoriaethu polisïau yn y ffordd y mae wedi'i wneud, trwy ddull cyllido CCAUC, megis ehangu mynediad, a sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Nid yw'r gyllideb ddrafft wedi rhoi unrhyw sicrwydd o gwbl ynghylch ariannu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ers ei sefydlu yn 2011, mae'r Coleg wedi penodi 118 o ddarlithwyr mewn meysydd amrywiol iawn, ac yn darparu dros 1,000 o wahanol gyrsiau. Mae angen pobl cymwys mewn amrywiaeth eang o feysydd arbenigol, ac sydd â'r sgiliau i gyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg, ar economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae'r Coleg Cymraeg, drwy gydweithio â holl brifysgolion Cymru, yn helpu i ateb y galw hwnnw. Mae dirfawr angen i'r buddsoddiad yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fod yn un hirdymor os ydyw am fod yn effeithiol. Byddai torri nawr yn ergyd i'r gwaith rhagorol sydd wedi'i gyflawni eisoes, ac mi fyddai'n debygol o gael sgil effaith ar ddewis cyfrwng iaith cyrsiau TGAU a Safon Uwch petai dysgwyr yn gweld nad oedd dilyniant i Addysg Uwch yn y pynciau o ddiddordeb pennaf iddynt.

Bydd angen sicrhau, os nad yw'r cronfeydd ar gael gan CCAUC yn sgil y toriadau arfaethedig, bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cael ei gyllido'n uniongyrchol gan y Llywodraeth, a hynny ar lefel sydd, o leiaf, yn diogelu'r gwaith craidd sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Gellid ystyried, gyda chyllideb ychwanegol, ymestyn cyfrifoldeb y Coleg dros Addysg Bellach i roi hwb i'r gwaith da sydd eisoes wedi cychwyn yn y sector, ond sydd dirfawr angen ei ymestyn.

- Y Gymraeg mewn Addysg

Mae'r cynnydd yn y gyllideb ar gyfer Y Gymraeg mewn Addysg (£82,000) yn eithriadol o fach. O feddwl am yr holl waith sydd angen ei wneud mewn amrywiaeth eang iawn o feysydd - ac a bortreadir yn glir iawn yn y methiant i gwrdd â mwyafrif targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg – nid yw £82,000 yn mynd i fynd yn bell iawn. Faint o staff dysgu ychwanegol, er enghraifft, all fynychu'r cwrs sabothol am £82,000?

Mae un cymal yn y ddogfen naratif (paragraff 3.45), ac a ailadroddir yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol (6.19) wedi ein syfrdanu'n llwyr. Dywed "Rydym ... yn cydnabod pa mor bwysig yw ysgolion o ran ffyniant y Gymraeg. Bydd y cyllid ychwanegol yr ydym yn ei ddarparu'n cael yr un effaith ar ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion dwyieithog." Mae datganiad o'r fath yn datgelu diffyg dealltwriaeth a haerllugrwydd eithriadol; dyma Lywodraeth Cymru yn canu ei chlodydd ei hun am beidio â chamwahaniaethu yn erbyn y sectorau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ei

chyllideb addysg. Nid yw'n cymryd i ystyriaeth o gwbl bod darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, neu fwy fyth, yn ddwyieithog, yn gallu bod yn fwy costus mewn llawer o ffyrdd na darparu drwy gyfrwng y Saesneg, a bod angen i'r gyllideb adlewyrchu hynny. Nid yw'n ystyried 'chwaith, yr angen dirfawr am ddatblygiad ac ehangu yn y sectorau hyn.

Â'r Asesiad Effaith yn ei flaen i frolio y "bu cynnydd calonogol yn nifer y disgyblion ysgol gynradd sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf." Mae hyn yn ffeithiol gywir, ond nid yw'n crybwyll y ffaith ei bod yn eithriadol o annhebygol y bydd y targed ar gyfer 2015 (heb son am y targed mwy uchelgeisiol ar gyfer 2020) ar gyfer y maes hwnnw a osodir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cael ei gyflawni. Dywed yr Adroddiad Blynyddol 2014-15 ar y Strategaeth (Gorffennaf 2015) bod y methiant i gyrraedd y targed "yn dangos bod angen rhoi mwy o sylw i sicrhau twf cynaliadwy a pharhaus mewn addysg cyfrwng Cymraeg." Ni chyflawnir twf o'r fath ar sail £82,000; mae angen buddsoddiad sylweddol, a blaenoriaeth polisi o Lywodraeth Cymru lawr i'r Awdurdodau Lleol.

Yn fyr, ni fydd modd i Lywodraeth Cymru gyrraedd y targedau a osodwyd i'w hun yn y Strategaeth nôl yn 2010, ar gyfer 2015 na 2020 heb fuddsoddiad uwch mewn Cymraeg mewn Addysg, a heb sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog i holl feysydd polisi'r Adran Addysg a Sgiliau, ac i bob gwas sifil yn yr Adran. Nid yw 'ymrwymiad' at ffyniant na strategaeth na pholisi na tharged yn golygu unrhyw beth heb y buddsoddiad i'w ategu. Rhaid cofio bod buddsoddiad yn y Gymraeg mewn addysg yn fuddsoddiad yn nyfodol addysgol a diwylliannol pob un disgybl yn holl ysgolion Cymru.

- Y Gymraeg

Mae'r toriad sylweddol i gyllideb y Gymraeg yn peri siom a sioc i UCAC. Nid yw'r arbediad o £1,685,000 yn un mawr i'r Llywodraeth, ond mae'n gyfwerth â 19.5% o'r gyllideb i hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Sonnir am £1.2m i 'leddfu effaith gostyngiadau ac i gefnogi'r Gymraeg' yn 2016-17', ond mae'n newid y waelodlin o ran y gyllideb ar gyfer blynyddoedd i ddod. Mae'r ddogfen naratif yn sôn bod y Llywodraeth yn 'awyddus i sicrhau bod modd i'r Gymraeg ffynnu o fewn ein cymunedau', ond nid yw'r gyllideb yn profi parodrwydd i wneud hynny mewn unrhyw ffordd.

Byddai'r toriad arfaethedig o 10.6% i gyllideb y Cyngor Llyfrau yn eithriadol o niweidiol o ran y cynnyrch print/ar-lein sydd ar gael yn y Gymraeg - yn llyfrau, cylchgronau a gwefannau. Mae'r rhain oll yn adnoddau gwerthfawr i ysgolion, i'r sawl sy'n dysgu'r iaith fel oedolion, ac i'r boblogaeth o siaradwyr Cymraeg ble nad yw'r farchnad yn ddigon o faint i ddarparu'n ddigonol heb fuddsoddiad ychwanegol. Yn ogystal, maent yn rhan o'r hyn sy'n normaleiddio'r iaith ac yn ei wneud yn weledol yng ngŵydd y cyhoedd.

Mae'n adeg dyngedfennol i'r iaith Gymraeg - mae pob adroddiad, adolygiad a chyfrifiad yn dangos hynny'n glir. Nid nawr yw'r amser i wneud toriadau; nid yw'r iaith Gymraeg yn faes ble y gellir derbyn colledion yn y tymor byr ac adennill tir yn rhwydd yn y dyfodol. Bydd colledion o ran niferoedd siaradwyr nawr oherwydd diffyg buddsoddiad yn eithriadol o anodd ei hadennill yn y dyfodol.

Trwy bolisïau a dogfennau strategol hir- a byr-dymor fel 'Iaith Fyw, Iaith Byw', a 'Bwrw Ymlaen', mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo'i hun i Gymru ddwyieithog ble mae'r ddwy iaith yn hyfyw. Ni

fydd modd i'r Llywodraeth wireddu amcanion y polisïau a'r strategaethau hyn gyda thoriadau mor hegar i'r gyllideb.

Ymhellach, nid yw UCAC o'r farn bod y gyllideb hon yn gweithio'n effeithiol tuag at y nod o 'Gymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu' sef un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac felly bod Gweinidogion Cymru mewn perygl o beidio cyflawni eu dyletswyddau dan y ddeddf.

### 3. Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol wrth graffu ar y gyllideb:

- **Paratoi ar gyfer Bil Cymru**

Er bod dryswch ynghylch datganoli tâl ac amodau gwaith athrawon yn sgil Bil Cymru Drafft, byddai'n fanteisiol i Lywodraeth Cymru symud ymlaen, mewn trafodaeth gyda rhanddeiliaid allweddol, gyda chynlluniau ar gyfer y model orau ar gyfer Cymru. Byddai hynny'n rhoi sail ar gyfer gwneud cynlluniau cyllidebol.

- **Dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y cynrychiolir hwn wrth ddyrannu adnoddau**

O ran ysgolion, mae gan UCAC bryderon penodol ynghylch y diffyg cynllunio ataliol ym maes recriwtio a chadw (*recruitment and retention*) athrawon.

Yn ei dystiolaeth i'r *School Teachers' Review Body (STRB)* ar 26 Tachwedd 2015, dywedodd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau:

> "The latest projections for pupil numbers (based on the school population of Wales at January 2015) show primary numbers rising by 13,500 between 2015 and 2025. Projections for pupil numbers suggest secondary pupil numbers will fall by 7,700 overall between 2015 and 2018, before starting to rise again by 2019."

Mae'n debygol iawn felly y bydd lefel uchel o ddiswyddiadau'n parhau yn y sector uwchradd am y tro, ond y bydd angen dechrau ail-gyflogi o fewn tair blynedd.

Dadleua UCAC y byddai'n fwy effeithlon, yn fwy cost effeithiol, ac yn fwy 'ataliol' o ran arddull i geisio diogelu cymaint â phosib o'r swyddi hyn nawr yn hytrach na cheisio ail-gyflogi mewn ychydig flynyddoedd. Dyma rai rhesymau dros wneud hynny:

- mae diswyddo'n ariannol gostus yn y tymor byr o ran taliadau diswyddo; yn ogystal, mae'n niweidiol i awyrgylch gweithio'r ysgol gan hau ansicrwydd ac amheuaeth ymhlith y staff
- mae gweithio gyda phrinder staff yn arwain at lwyth gwaith cynyddol ar y sawl sydd ar ôl, sy'n gallu arwain at straen a salwch; mae hyn yn niweidiol ar lefel unigol ac i awyrgylch gwaith yr ysgol, ac yn ogystal gall fod yn gostus iawn o ran tâl salwch a chostau cyflenwi i ysgolion, gyda sgil effeithiau ar safonau addysgol; mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (*Health and Safety Executive*) wedi adnabod addysg fel maes ble mae straen yn broblem fawr, a ble mae angen gweithredu ymhellach; mae Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oll wedi tynnu sylw at broblemau a chostau absenoldebau athrawon yn ddiweddar
- unwaith y bydd athrawon wedi gadael y proffesiwn, mae'n annhebygol y bydd modd eu denu yn ôl ymhen rhai blynyddoedd – mi fyddai hynny'n golled sylweddol o ran y

buddsoddiad yn eu hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus; hyd yn oed pe byddai modd ail-ddenu rhai ohonynt, mi fyddai costau ail-hyfforddi ynghlwm â hynny

- mae costau recriwtio yn gallu bod yn sylweddol

- **Effaith rhaglenni deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ac a oes digon o adnoddau ar gyfer eu rhoi ar waith**

Ym maes addysg, y prif ddarn o ddeddfwriaeth arfaethedig yw'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg. Nid oedd UCAC o'r farn fod y Memorandwm Esboniadol a'r asesiadau effaith cychwynnol yr ymgynghorwyd arnynt yn ddiweddar wedi mynd i ddigon o fanylder ynghylch costau sylweddol iawn trawsnewidiad o'r fath y bwriedir. Bydd angen cynllun a chyllidebu'n ofalus iawn ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth pan ddaw.

- **Craffu ar y Gymraeg, cydraddoldeb a chynaliadwyedd**

Mae'n peri siom a rhwystredigaeth bod y Gymraeg yn parhau i fod yn ystyriaeth ymylol/ychwanegol.

Teimla UCAC bod angen i'r Gymraeg gael sylw canolog ym mhob maes polisi ar draws y Llywodraeth ac y dylai felly elwa o bob gwariant cyhoeddus perthnasol. Er enghraifft, ni ddylid fod yn edrych ar wasanaethau cyhoeddus ar y naill law, a'r Gymraeg ar y llall – fel meysydd gwariant sy'n cystadlu â'i gilydd. Yn hytrach, dylid fod yn meddwl am rôl ganolog, hanfodol y Gymraeg o fewn y gwasanaethau cyhoeddus.

Nid yw hyn yn wir ar hyn o bryd, sy'n golygu bod y Gymraeg yn fwy bregus pan ddaw unrhyw doriadau. Mae'r diffyg ymagwedd strategol, prif-ffrwd at wariant ar yr iaith yn rhwystr gwirioneddol o ran ei normaleiddio ac o ran y gallu i hybu ei defnydd dros y tymor hir.

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru